PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9: 2000 - 2003

CYFLWYNIAD

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgareddau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth (y Pwyllgor) rhwng ei gyfarfod cyntaf yn Ebrill 2000 a'i gyfarfod olaf ym Mawrth 2003. Mae copïau o adroddiadau, agendâu, papurau, cofnodion a thrawsgrifiadau cyfarfodydd y Pwyllgor i'w cael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol[1].

AELODAETH

2. Sefydlwyd y Pwyllgor ym Mawrth 2000 yn sgil diddymu hen Bwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd, a oedd wedi'i ethol ym 1999. Yr aelodau gwreiddiol oedd: Richard Edwards (Cadeirydd), David Davies, Geraint Davies, Glyn Davies, Jocelyn Davies, Sue Essex (Gweinidog), John Griffiths, Christine Humphreys, Carwyn Jones, Gareth Jones a John Marek.

3. Cafwyd newidiadau sylweddol yn aelodaeth y Pwyllgor yn ystod cyfnod yr adroddiad, ac mae dros un rhan o dair o Aelodau'r Cynulliad wedi eistedd ar y Pwyllgor rywbryd neu'i gilydd. Ceir manylion yn **Atodiad 1**.

4. Aelodau presennol y Pwyllgor yw: Richard Edwards (Cadeirydd), Eleanor Burnham, David Davies, Janet Davies, Sue Essex (Gweinidog), Brian Hancock, Val Lloyd, Tom Middlehurst, Karen Sinclair a Phil Williams.

CYLCH GWAITH A CHYFRIFOLDEBAU

5. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros yr Amgylchedd. Yn wreiddiol yr oedd hwn yn cynnwys materion cefn gwlad a chadwraeth, diogelu'r amgylchedd, cynllunio, trafnidiaeth, a henebion, ac adeiladau rhestredig a hanesyddol. Yn ddiweddarach yn 2000 ysgwyddodd y Gweinidog gyfrifoldeb dros arwain ar ddatblygu cynaliadwy.

6. Mae Rheol Sefydlog 9 yn amlinellu cyfrifoldebau pwyllgorau pwnc.

7. Mae aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, sydd wedi gwneud yr hyfforddiant angenrheidiol, hefyd yn rhan o'r panel y tynnir aelodau o Bwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio o'i blith. Mae Rheol Sefydlog 35 yn amlinellu cyfrifoldebau Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio.

[1] Gweler tudalennau www.cymru.gov.uk ar gyfer Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth

GWAITH A'R HYN A GYFLAWNWYD HYD YN HYN

8. Cyfarfu'r Pwyllgor 55 o weithiau yn ystod cyfnod yr adroddiad. Yn ogystal, cyfarfu'r Pwyllgor ar y cyd deirgwaith â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ac unwaith â'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig.

9. Fel rhan o'i ymrwymiad i'w gwneud yn haws i bobl Cymru weld trafodion y Pwyllgor, cyfarfu'r Pwyllgor mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru – Aberhonddu, Blaenafon, Hwlffordd, Parc Cenedlaethol Eryri, Trehafod (deirgwaith), a Threorci. Lansiodd yr aelodau adroddiad yr ymgynghoriad ar drafnidiaeth gyhoeddus yn yr orsaf bysiau a threnau yng Nghaerffili.

10. Amlinellir prif gyraeddiadau'r Pwyllgor isod.

Ymchwiliad Nantygwyddon

11. Ym mis Gorffennaf 2000 penderfynodd y Cynulliad Cenedlaethol y dylai'r Pwyllgor ymgymryd ag ymchwiliad annibynnol i sefydlu, rheoli a rheoleiddio safle tirlenwi Nantygwyddon, y Gelli, Rhondda. Daeth hyn yn sgil pryderon a fynegwyd gan y trigolion lleol ynghylch effaith y safle ar eu hiechyd a'r amgylchedd.

12. Dechreuodd yr ymchwiliad gyda dau gyfarfod Pwyllgor ym mis Hydref 2000, lle clywodd y Pwyllgor gan y trigolion lleol a chan gyrff cyhoeddus. Penodwyd ymchwilydd annibynnol wedyn i gynnal ymchwiliad manwl ar ran y Pwyllgor. Clywodd David Purchon dystiolaeth a barn yn gyhoeddus gan ystod eang o unigolion a chyrff dros gyfnod o ddeuddeg mis. Comisiynodd ddau adroddiad technegol hefyd – y naill ar hydrodaeareg, a'r llall ar wenwyneg. Cyflwynodd yr ymchwilydd annibynnol ei adroddiad i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2001.

13. Gwahoddodd y Pwyllgor bartïon sydd â diddordeb i ymddangos ger ei fron ac i gyflwyno sylwadau yn uniongyrchol ar adroddiad yr ymchwilydd. Cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad yn ei dro i'r cyfarfod llawn yn Chwefror 2002 [2]. Yr oedd rhai o'i argymhellion yn ymwneud yn benodol â safle tirlenwi Nantygwyddon, yr oedd eraill yn wersi cyffredinol ar gyfer dyfodol rheoli gwastraff yng Nghymru, gan gynnwys yr angen i fynd i'r afael â phryderon iechyd sy'n gysylltiedig â chyfleusterau gwaredu gwastraff. Ategwyd argymhellion y Pwyllgor yn llawn gan y cyfarfod llawn.

14. Mae'r safle wedi'i gau ers hynny. Mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu argymhellion y Pwyllgor, ac eithrio un argymhelliad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad geisio diwygiad i Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i ddileu 'commercial confidentiality' fel rhwystr i gyhoeddi gwybodaeth amgylcheddol.

---

[2] Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, *Ymchwiliad Annibynnol : Safle Tirlenwi Nantygwyddon – Adroddiad y Pwyllgor,* ISBN 0 7504 2873 2, Mawrth 2002.

15. Ein hymchwiliad oedd y cyntaf o'i fath gan y Cynulliad Cenedlaethol, gan ddefnyddio ymchwilydd annibynnol i gyfarfod yn lleol er mwyn gwneud gwaith casglu a dadansoddi tystiolaeth fanwl ar ran pwyllgor, ac mae wedi gosod cynsail ar gyfer gwaith y pwyllgorau pwnc. Ymgymerodd y Pwyllgor ag adolygiad o'r broses i nodi arferion gorau ar gyfer unrhyw ymchwiliadau yn y dyfodol ac fe gyflwynodd adroddiad i Banel cadeiryddion y pwyllgorau pwnc ym mis Mehefin 2002. Argymhellodd y Panel i'r Pwyllgor Busnes fod darpariaeth yn cael ei chynnwys yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer cychwyn ymchwiliadau gan bwyllgorau pwnc.

Datblygu polisi (Rheol Sefydlog 9.7 (i))

Trafnidiaeth gyhoeddus

16. Yn ei ail gyfarfod ym Mai 2000 mabwysiadodd y Pwyllgor y cylch gwaith a luniwyd gan hen Bwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd i adolygu trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Adolygiad o bwys oedd hwn a ystyriodd y camau y mae eu hangen i hwyluso gwell gwasanaethau a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus integredig. Fe ystyriodd hefyd a oedd natur pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus yn ddigonol.

17. Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ymgynghori ym mis Gorffennaf 2001[3] ar ôl ymgynghoriad cwmpasu eang, dau seminar ar drafnidiaeth, sesiynau tystiolaeth niferus ac ymweliadau darganfod ffeithiau. Diffiniodd yr adroddiad weledigaeth ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru ac argymhellodd sefydlu nod barcut ar gyfer ansawdd. O ran cyflawni, argymhellodd y Pwyllgor strategaethau rhanbarthol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus a datblygu'r consortia trafnidiaeth rhanbarthol gwirfoddol. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd ddatblygu fframwaith gwerthuso ar gyfer mesur manteision buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus. Derbyniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bob un o argymhellion y Pwyllgor, ac mae gwaith ar y gweill i'w gweithredu. Gwahoddodd adroddiad yr ymgynghoriad hefyd sylwadau ar ddewisiadau ar gyfer newid trefniadaethol yn y dyfodol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol diwygio deddfwriaeth sylfaenol.

18. Cyflwynwyd adroddiad terfynol y Pwyllgor i'r cyfarfod llawn yn Rhagfyr 2001[4]. Argymhellodd newid statudol a threfniadaethol tymor hwy. Yr oedd hyn yn cynnwys ennill pwerau deddfwriaethol sylfaenol galluogi ar gyfer newid trefniadaethol, gan ddirprwyo cyfrifoldeb rheoli dros wasanaeth rheilffyrdd Valley Lines. Gwnaed argymhellion hefyd ar gyfer ennill pwer cyfarwyddyd dros yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (SRA) ochr yn ochr â'r model yn yr Alban, yn ogystal â'r hawl i enwebu aelod o'r SRA a sicrhau cynrychiolaeth o Gymru ar y corff a fydd yn olynu Railtrack. Argymhelliad pellach oedd sefydlu swyddfa'r Comisiynydd Trafnidiaeth yng Nghymru, ac ystyried ffyrdd o'i gwneud yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Derbyniodd Llywodraeth

[3] Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, *Adolygiad Polisi Trafnidiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Ymgynghori*, ISBN 0 7504 2699 3, Gorffennaf 2001.
[4] Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, *Adolygiad Polisi Trafnidiaeth Gyhoeddus – Adroddiad Terfynol*, ISBN 0 7504 2820 1, Rhagfyr 2001.

Cynulliad Cymru yr holl argymhellion ac mae wedi gofyn i Lywodraeth y DU gyflwyno Mesur Cludiant i Deithwyr.

19. Cyflwynodd Aelodau'r Pwyllgor argymhellion y Pwyllgor i Bwyllgor Materion Cymreig Senedd y DU (pwyllgor pwnc cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol i wneud hynny). Cafodd galwadau'r Pwyllgor am newidiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol ac atebolrwydd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol eu hadlewyrchu yn adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig *Transport in Wales*[5].

Gweithredu'n Lleol ar Fioamrywiaeth

20. Dechreuodd yr adolygiad byr hwn ym mis Gorffennaf 2002 gydag ymgynghoriad eang ar y camau y mae eu hangen i gefnogi gweithredu cynlluniau gweithredu'n lleol ar fioamrywiaeth. Daeth nifer o gyflwyniadau ysgrifenedig i law a thrafododd y Pwyllgor y themâu allweddol sy'n deillio o'r ymgynghoriad â chynrychiolwyr swyddogion bioamrywiaeth lleol, partneriaid y sector gwirfoddol, a chynghorydd statudol y Cynulliad Cenedlaethol ar fioamryiaeth, sef Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

21. Cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad i'r cyfarfod llawn ym mis Chwefror 2003[6]. Tanlinellodd yr adolygiad gynnydd da wrth lunio cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth lleol, ond bu iddynt nodi hefyd yr hyn sy'n rhwystro camau rhag cael eu cymryd. Gwnaed argymhellion ar gyfer cynyddu ymrwymiad gwleidyddol i fioamrywiaeth a rhoi adnoddau ar y lefel leol i gyd-fynd â hyn. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd gynyddu faint o wybodaeth ac arbenigedd sydd ar gael i gefnogi partneriaethau lleol, a sefydlu gwobrau bioamrywiaeth – pob un wedi'i anelu at gefnogi cyflwyno camau cadwraeth lleol. Derbyniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bob un o'r deg argymhelliad.

Cyfrannu at ddatblygu polisi

22. Yn ogystal â'i adolygiadau ei hun, cyfrannodd y Pwyllgor hefyd at brif ddatblygiadau polisi Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fe'u rhestrir isod:

- *Yr Amgylchedd* – datblygu Strategaeth Gwastraff Cymru, ac adolygu ariannu a gweinyddu dulliau amddiffyn rhag llifogydd;

- *Cynllunio* – adolygu canllawiau cynllunio a diwygio'r system gynllunio yng Nghymru, datblygu Cynllun Gofodol Cymru, a gwaith i fynd i'r afael â goblygiadau datblygiadau yn ystod y broses gynllunio o safbwynt iechyd y cyhoedd;

- *Trafnidiaeth* – y Fframwaith Trafnidiaeth gan gynnwys cefnogi'r Strategaeth Diogelwch Ffyrdd a'r Strategaeth Cerdded a Beicio, adolygiad

[5] Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin, *Transport in Wales*, Ail Adroddiad y Sesiwn 2002-03, Rhagfyr 2002, HC 205-I

[6] Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, *Adolygiad o Weithredu'n Lleol ar Fioamrywiaeth*, ISBN 0 7504 3088 5, Ionawr 2003.

o gludiant cymunedol (yn sgil argymhellion adolygiad polisi'r Pwyllgor o gludiant cyhoeddus) a datblygu cludiant awyr yng Nghymru yn y dyfodol.

Adolygiad o Wariant a Gweinyddiaeth (Rheol Sefydlog 9.7 (ii))

Adroddiad y Gweinidog

23. Craffodd y Pwyllgor yn rheolaidd ar waith y Gweinidog dros yr Amgylchedd drwy gyfrwng ei Hadroddiad a oedd yn darparu crynodeb o'r Datblygiadau ar draws y portffolio.

Llifogydd

24. Yn fuan ar ôl llifogydd Hydref 2000 gwahoddodd y Pwyllgor y Gweinidog dros yr Amgylchedd, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i adrodd ar y gwersi a ddysgwyd o'r llifogydd a oedd wedi digwydd a'r camau sydd ar y gweill i leihau risg llifogydd yn y dyfodol.

Clwy'r Traed a'r Genau

25. Yn ystod gwyliau'r Pasg 2001 cyfarfu'r Pwyllgor ar y cyd â'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i ystyried goblygiadau amgylcheddol clwy'r traed a'r genau. Craffodd y Pwyllgorau ar y camau a gymerwyd gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd a'r Gweinidog dros Faterion Gwledig, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Bwrdd Ymyrraeth (ar y pryd).

Adolygu Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPBs) (Rheol Sefydlog 9.7 (iii))

Cyrff ac asiantaethau a noddir

26. Craffodd y Pwyllgor yn flynyddol ar berfformiad Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Parciau Cenedlaethol Cymru (Bannau Brycheiniog, Arfordir Sir Benfro ac Eryri), a Cadw: Welsh Historic Monuments. Cyfrannodd y Pwyllgor hefyd at yr adolygiadau pum mlynedd o'r cyrff hyn, lle'r argymhellwyd ystyried yr angen yn y tymor canolig i'r tymor hir am ryw fath o Asiantaeth Cefn Gwlad/Amgylchedd dros Gymru. Ceisiwyd barn y Pwyllgor hefyd ar ganllawiau statudol drafft i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

27. Yn 2000 ystyriodd y Pwyllgor adroddiad pum mlynedd Pwyllgor Ymgynghorol Cymru ar Asiantaeth yr Amgylchedd a chytuno y dylid ei dirwyn i ben, o gofio'r gorgyffwrdd sydd rhwng ei rôl a rôl y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 9.7 (iii).

28. Craffodd y Pwyllgor hefyd ar y camau a gymerwyd gan y cyrff canlynol, er nad ydynt yn adrodd yn ffurfiol i'r Cynulliad Cenedlaethol:

- *Yr Awdurdod Reilffyrdd Strategol* – craffodd y Pwyllgor yn rheolaidd ar yr Awdurdod Reilffyrdd Strategol ar eu strategaeth arfaethedig ar gyfer rheilffyrdd Prydain a hefyd osod masnachfraint reilffyrdd Cymru a'r Gororau. Craffodd y Pwyllgor hefyd ar berfformiad y cwmnïau sy'n gweithredu trenau sy'n darparu gwasanaethau i deithwyr yng Nghymru.

- *Dwr Cymru* - yn 2000 cynhaliodd y Pwyllgor ddau gyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd i graffu ar ddarpar gaffaelwyr Hyder – sef Nomura a Western Power Distribution. Yn nes ymlaen yn y flwyddyn craffodd y Pwyllgorau hefyd ar gynnig Glas Cymru i gymryd drosodd cwmni dwr Hyder, Dwr Cymru, o Western Power Distribution. Dylanwadodd eu datganiad ar y cyd ar benderfyniad Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd Water Services i beidio â blocio'r cynnig. Yn 2002 dilynodd y Pwyllgor hyn gydag adolygiad o berfformiad Glas Cymru.

Deddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8(i))

29. Cyflwynodd y Gweinidog adroddiad yn rheolaidd i'r Pwyllgor ar ddeddfwriaeth arfaethedig o fewn y portffolio er mwyn i'r aelodau nodi meysydd i graffu arnynt neu i'w hegluro ymhellach.

30. *Is-ddeddfwriaeth* – yn hytrach na chynnal archwiliad manwl o is-ddeddfwriaeth arfaethedig ar ôl i bolisi gael ei lunio, yr oedd y Pwyllgor yn tueddu i gyfrannu pan oedd polisi'n cael ei ddatblygu. Er hynny, cafodd y Pwyllgor adroddiadau ar weithredu'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy drwy is-ddeddfwriaeth, er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion rhanddeiliaid. Dim ond un eitem a gyfeiriwyd yn ffurfiol at y Pwyllgor gan y Pwyllgor Busnes yn ystod cyfnod yr adroddiad – sef Gorchymyn Trafnidiaeth 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001[7].

31. *Deddfwriaeth Sylfaenol* – craffodd y Pwyllgor ar ddarpariaethau Mesur Cynllunio a Phrynu Gorfodol Cymru a Lloegr cyn iddo gael ei ystyried gan bwyllgor sefydlog Ty'r Cyffredin. Rhoddwyd gwybod am safbwyntiau'r Pwyllgor i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd er mwyn iddo fynd ar eu trywydd gyda Llywodraeth y DU.

Cyllideb (Rheol Sefydlog 9.8 (ii))

32. Cyflawnodd y Pwyllgor ei gyfrifoldeb i gyfrannu at broses y gyllideb flynyddol drwy nodi blaenoriaethau o fewn y portffolio a chyflwyno sylwadau ar y gyllideb ddrafft.

[7] I gael copïau o adroddiad y Pwyllgor gweler www.cymru.gov.uk ar gyfer dogfennau a osodwyd gerbron y Cynulliad dyddiedig 14 Mehefin 2001.

Cwynion (Rheol Sefydlog 9.8(iii))

33. Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion at y Pwyllgor yn ystod cyfnod yr adroddiad.

Penodiadau Cyhoeddus (Rheol Sefydlog 9.8(iv))

34. Ymgynghorwyd ag enwebeion penodiadau cyhoeddus y Pwyllgor[8] ar benodiadau niferus i gyrff cyhoeddus yn ystod cyfnod yr adroddiad.

Materion a gyfeiriwyd gan y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8 (V))

35. Ym mis Gorffennaf 2000 penderfynodd y Cynulliad Cenedlaethol y dylai'r Pwyllgor gynnal ymchwiliad i safle Tirlenwi Nantygwyddon (gweler paragraffau 11-15 uchod).

Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (Rheol Sefydlog 35)

36. Cynhaliwyd 17 o gyfarfodydd pwyllgor yn ystod cyfnod yr adroddiad i ystyried 38 o achosion. Amgaeir adroddiad blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2002 ac Ebrill 2003 yn **Atodiad 2**. Mae adroddiadau ar gyfer y blynyddoedd blaenorol ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

37. Adolygodd y Pwyllgor y trefniadau ar gyfer Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio a gwahodd y Gweinidog i gyflwyno cynigion ar gyfer cyflymu'r broses benderfynu a gwneud y broses o sefydlu pwyllgorau yn fwy hyblyg. Cytunwyd ar ddiwygiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 25 yn Chwefror 2003 a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Busnes.

38. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i roi cyhoeddusrwydd ehangach i'r weithdrefn arloesol hon ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio yn gorfforaethol. Mae llwyddiant y trefniadau hyn i'w weld yn y ffaith na chafwyd unrhyw her gyfreithiol lwyddiannus i unrhyw benderfyniad a wnaed gan Bwyllgor Penderfyniadau Cynllunio.

Dyletswyddau Statudol y Cynulliad

39. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gosod rhai dyletswyddau ar y Cynulliad Cenedlaethol. Mae gwaith y Pwyllgor wedi'i arwain gan y canlynol:

- *Cyfle Cyfartal (adran 48 ac adran 120)* – cynhaliwyd pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn gyhoeddus ac yn aml y tu allan i'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod ei fusnes o fewn cyrraedd pobl ledled Cymru. Dros yr ystod o faterion o fewn ei bortffolio, rhoes y Pwyllgor sylw i gyfle cyfartal, ac argymhellodd ei adolygiad ei hun o drafnidiaeth gyhoeddus fod gwasanaethau a fyddai'n hygyrch i bawb yn cael eu cyflwyno. Craffodd y

[8] Yr enwebeion presennol yw Eleanor Burnham a Richard Edwards. Yn ystod cyfnod yr adroddiad gwnaed y ddyletswydd hon gan: Mick Bates a Richard Edwards (Mai – 17 Hydref 2001), Eleanor Burnham a Richard Edwards (17 Hydref 2001 – 13 Mawrth 2002), Eleanor Burnham a Tom Middlehurst (13 Mawrth 2001 – 19 Mehefin 2002).

Pwyllgor ar gyrff a noddir o ran eu gwaith i hybu cyfle cyfartal ac i sefydlu gweithlu mwy amrywiol.

- *Datblygu Cynaliadwy (adran 121)* – drwy ei drafodaethau canolbwyntiodd y Pwyllgor ar yr angen i daro cydbwysedd rhwng twf economaidd a chymdeithasol a chadw'r amgylchedd, a hynny drwy ddatblygu cynaliadwy. Mae ei argymhellion yn yr adolygiad polisi ei hun yn adlewyrchu'r egwyddor hon. Cyfrannodd y Pwyllgor hefyd at ddatblygu Cynllun Datblygu Cynaliadwy a Chynllun Gweithredu'r Cynulliad Cenedlaethol. [Yn ei gyfarfod diwethaf ystyriodd y Pwyllgor effeithiolrwydd y Cynllun, er mwyn llywio'r adolygiad arfaethedig gan y Cynulliad newydd.] Craffodd y Pwyllgor hefyd ar gyrff a noddir o fewn ei bortffolio ar eu gwaith i hybu datblygu cynaliadwy.

BLAENRAGLEN WAITH

40. Adroddiad terfynol y Pwyllgor i'r Cynulliad yw hwn. Yn **Atodiad 3** rhestrir **materion arfaethedig** o fewn portffolio'r Pwyllgor a'r meysydd y mae'r Pwyllgor yn awgrymu y gellid gwneud gwaith pellach ynddynt, a allai fod o gymorth i bwyllgor(au) olynol wrth iddynt lunio eu rhaglen(ni) gwaith.

Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth
Mawrth 2003

ATODIAD 1

AELODAETH Y PWYLLGOR 2000-2003

29 Mawrth 2000

Richard Edwards (Cadeirydd)	Preseli Sir Benfro	Llafur
Sue Essex (Gweinidog)	Gogledd Caerdydd	Llafur
Carwyn Jones	Pen-y-bont ar Ogwr	Llafur
David Davies	Mynwy	Ceidwadwyr
Geraint Davies	Rhondda	Plaid Cymru
Glyn Davies	Canolbarth a Gorllewin Cymru	Ceidwadwyr
Jocelyn Davies	Dwyrain De Cymru	Plaid Cymru
John Griffiths	Dwyrain Casnewydd	Llafur
Christine Humphreys	Gogledd Cymru	Democratiaid Rhyddfrydol
Gareth Jones	Conwy	Plaid Cymru
John Marek	Wrecsam	Llafur

10 Hydref 2000 – Disodlwyd Jocelyn Davies a Gareth Jones gan:

Helen Mary Jones	Llanelli	Plaid Cymru
Rhodri Glyn Thomas	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	Plaid Cymru

30 Hydref 2000 – Ymddiswyddodd John Marek ar ôl cael ei ethol yn Ddirprwy Lywydd.

9 Tachwedd 2000 – 'ailetholwyd' pob un o'r pwyllgorau pwnc yn sgil newidiadau i bortffolios y Cabinet. Gostyngodd aelodaeth y Pwyllgor o 11 i ddeg, gan golli un Ceidwadwr, sef Glyn Davies.

Disodlwyd Christine Humphreys gan:

Mick Bates	Sir Drefaldwyn	Democratiaid Rhyddfrydol

Disodlwyd Carwyn Jones, a'r swydd wag a grewyd yn sgil ymddiswyddiad John Marek, gan:

Tom Middlehurst	Alun a Glannau Dyfrdwy	Llafur
Karen Sinclair	De Clwyd	Llafur

16 Hydref 2001 – Disodlwyd Mick Bates gan:

Eleanor Burnham	Gogledd Cymru	Democratiaid Rhyddfrydol

27 Tachwedd 2001 – Disodlwyd John Griffiths gan:

Val Lloyd	Dwyrain Abertawe	Llafur

21 Mawrth 2002 – Disodlwyd Geraint Davies, Helen Mary Jones a Rhodri Glyn Thomas gan:

Janet Davies	Gorllewin De Cymru	Plaid Cymru
Brian Hancock	Islwyn	Plaid Cymru
Phil Williams	Dwyrain De Cymru	Plaid Cymru

ATODIAD 2

PWYLLGORAU PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN O DAN REOL SEFYDLOG 9.9: MAI 2002 I EBRILL 2003

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gweithgareddau'r Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio (PDC) rhwng Mai 2002 ac Ebrill 2003.

2 Aelodaeth

2.1 Etholir pob Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio o'r newydd ar gyfer pob apêl neu gais (new grwp o apeliadau/ceisiadau). Dewisir yr aelodau o'r Panel Penderfyniadau Cynllunio sy'n cynnwys aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth sydd wedi'u hyfforddi at y diben.

3 Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

3.1 Nodir cyfrifoldebau Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio yn Rheol Sefydlog 35.

4 Cyfarfodydd

4.1 Ystyriwyd yr achosion canlynol yn ystod cyfnod yr adroddiad:

PDC 2002/4

- Cais wedi'i alw i mewn a wnaed gan Renewable Energy Systems Ltd ar gyfer datblygu fferm wynt 17 tyrbin ym Mynydd Clogau, Adfa, Powys. **Penderfyniad: Cytunodd yr aelodau â'r Arolygydd y dylid rhoi caniatâd cynllunio gydag amodau.**

- Ceisiadau wedi'u galw i mewn a wnaed gan National Windpower Ltd ar gyfer fferm wynt 42 tyrbin yng Nghwm Llwyd, Carno, Powys ac am fan caeedig ar gyfer is-orsaf, adeilad rheoli a gwaith cysylltiedig ger Cefn Brith, Carno, Powys. **Penderfyniad: Cytunodd yr aelodau â'r Arolygydd y dylid gwrthod y cais cynllunio.**

- Apêl cynllunio gan Powergen Renewables Ltd mewn perthynas â'r bwriad i ddatblygu fferm wynt 16 tyrbin yn Nant Carfan, Llanbryn-mair, Powys. **Penderfyniad: Cytunodd yr aelodau â'r Arolygydd y dylid gwrthod y cais cynllunio.**

- Cais wedi'i alw i mewn a wnaed gan Mr A J Nolan am annedd amaethyddol newydd yn Woodlands, Forest Lodge, Libanus, Powys. **Penderfyniad: Cytunodd yr aelodau â'r Arolygydd y dylid gwrthod y cais cynllunio.**

PDC 2002/5

- Apêl cynllunio ac apêl caniatâd adeilad rhestredig gan Gryphon Corporation Cyf ar gyfer bwlch drws newydd arfaethedig i Apartment 2, the Victorian Wing, Trawsgoed, Aberystwyth. **Penderfyniad: Cytunodd yr aelodau y dylid rhoi caniatâd gydag amodau ar gyfer creu bwlch drws newydd yn ffasâd yr adeilad.**

- Cais wedi'i alw i mewn a wnaed gan Mr C Alford ar gyfer annedd amaethyddol newydd yn Castle Lands, Pencelli, Brecon. **Penderfyniad: Cytunodd yr aelodau â'r Arolygydd y dylid gwrthod y cais cynllunio.**

- Cais wedi'i alw i mewn a chais am ganiatâd adeilad rhestredig gan Gyngor Sir Powys ar gyfer Cam III Ffordd Liniaru Fewnol Aberhonddu o'r Struet i Ship Street, Aberhonddu a dymchwel adeiladau rhestredig. **Penderfyniad: Gwnaed sylwadau amrywiol a chytunodd yr Aelodau ag argymhellion yr Arolygydd gan roi caniatâd gydag amodau ar gyfer Ffordd Liniaru Fewnol Aberhonddu.**

PDC 2002/6

- Cais wedi'i alw i mewn a wnaed gan Windjen Power Ltd mewn perthynas â fferm wynt 25 tyrbin arfaethedig yn Nhir Mostyn/Foel Goch, Nantglyn, Dinbych. **Penderfyniad: Cytunodd yr aelodau y dylid rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod y cyflwynir Cytundeb Adran 106 cynhwysfawr, sy'n cynnwys y safle y gwneir cais amdano yn ogystal â'r ardal hybu cynefinoedd ar gyfer gweithredu mesurau lliniarol er lles grugieir du.**

- Cais a alwyd i mewn a wnaed gan Anglesey Boat Company Ltd am ganiatâd cynllunio ar gyfer adeiladu marina ac adeilad cyfleusterau, maes parcio a storfa gychod arfaethedig ym Mhenryn Safnas, Biwmares, Ynys Môn. **Penderfyniad: Cytunodd yr aelodau y dylid rhoi caniatâd cynllunio gydag amodau, ac ar ôl cyflwyno cytundeb Adran 106 wedi'i lofnodi a'i selio, sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer monitro ansawdd y dwr ac aroloygu'r sefyllfa ecolegol.**

PDC 2002/7

- Apêl cynllunio ac apêl caniatâd adeilad rhestredig gan Hutchinson 3G UK Ltd ar gyfer erialau arfaethedig ar Empire House, 54-57 Mount Stuart Square, Caerdydd. **Penderfyniad: Cytunodd y Pwyllgor â'r Arolygydd y dylid gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.**

- Apêl cynllunio gan Bovis Homes Ltd am gais amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl ar safle cyfan a chais llawn ar gyfer cam cyntaf y datblygiad sy'n cynnwys 121 o dai, yn ogystal â chynigion ar gyfer tirlunio, mannau agored a gweithfeydd cynorthwyol eraill ar dir yn Woodside, Brunbuga, Sir Fynwy. **Penderfyniad: Cytunodd y Pwyllgor â'r Arolygydd y dylid gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.**

ATODIAD 3

MATERION ARFAETHEDIG YM MHORTFFOLIO PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

Yn cynnwys meysydd lle y mae'r Pwyllgor yn awgrymu y gallai gwaith pellach gael ei wneud (wedi'i ddynodi *)

Cefn Gwlad

- Parhau i weithredu darpariaethau *Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000* – bwriedir i'r ymgynghoriad ar fapio mynediad agored orffen ar ddechrau 2004;

- Parhau i weithredu rhwydwaith Natura 2000 a'r gofyniad o dan *Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr EU* i werthuso statws cadwraeth safleoedd a rhywogaethau Natura 2000;

- *Adolygiad o arian ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol;

- Gweithredu argymhellion adroddiad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth *Adolygiad o Weithredu'n Lleol ar Fioamrywiaeth*;

- Adolygiad parhaus o'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru, gan gynnwys craffu ar eu rôl fel awdurdodau cynllunio.

Yr Amgylchedd

- Gweithredu a goblygiadau *Cyfarwyddeb Fframwaith Dwr yr UE*. Rhaid troi'r Gyfarwyddeb yn gyfraith y DU erbyn Rhagfyr 2003;

- Y *Mesur Dwr,* a gafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhy'r Arglwyddi ar 19 Chwefror 2003*;*

- Gweithredu mecanweithiau ariannu a threfniadau gweinyddol diwygiedig ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd;

- Cynnydd tuag at fodloni targedau newid hinsawdd, gan gynnwys cyfraniad Cymru at darged Protocol Kyoto y DU;

- Gweithredu argymhellion ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i safle Tirlenwi Nantygwyddon;

- Cynnydd tuag at fodloni targedau ailgylchu 2003-04 a nodwyd yn *Yn Gall gyda Gwastraff*, strategaeth gwastraff Cymru, gan gynnwys *gwybodaeth bellach am faterion a gysylltir â llosgi fel dull o waredu gwastraff, ac effaith Cyfarwyddebau'r UE ynghylch gwaredu teiars;

- Gweithredu ac effaith mentrau cyfrifoldeb cynhyrchwyr yng Nghymru, e.e. *Cyfarwyddeb yr UE : End-of-Life Vehicles (ELV)* a *Chyfarwyddeb yr UE : Waste Electrical and Electronic Equipment.* Mae'r DU eisoes wedi methu â bodloni'r dyddiad cau ar gyfer troi'r Gyfarwyddeb ELV yn gyfraith;

- Ymarfer ymgynghori nesaf ar gynigion y DU ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol;

- *Ystyriaeth y Cynulliad o allyriadau ymbelydrol o weithfeydd Nycomed Amersham yng Nghaerdydd, a drwyddedwyd o dan Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1993, yng ngoleuni Deiseb i'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch methiant â chadw at rai o Gyfarwyddebau'r UE;

- *Ystyriaeth y DU o 'gyfiawnhau' arferion sy'n golygu bod y cyhoedd yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd, fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 6 o Gyfarwyddeb Cyngor yr UE 96/29/Euratom;

- *Gwybodaeth bellach am effeithiau llygryddion amgylcheddol ar iechyd pobl;

- *Trafodaeth ar safbwyntiau Bjorn Lomborg, awdur 'A Sceptical Environmentalist'.

Cynllunio

- Gweithredu darpariaethau'r Mesur Gorchymyn Cynllunio a Phrynu Gorfodol;

- Parhau i fonitro datblygu a gweithredu Cynllun Gofodol Cymru;

- Goblygiadau'r bwriad i integreiddio *Polisi Cynllunio Cymru* a *Polisi Cynllunio Mwynau;*

- Diweddaru canllawiau cynllunio a nodiadau cyngor technegol ynghylch telathrebu (mae ymchwil newydd yn cael ei gwneud ar hyn o bryd gan Raglen Ymchwil Iechyd ym maes Telathrebu ar ddiogelwch gorsafoedd a dilysrwydd y canfyddiad bod yna broblemau i iechyd pobl sy'n byw yn agos atynt);

- *Ystyried materion datblygu cynaliadwy ehangach sy'n ymwneud â datgymalu'r adweithydd niwclear yn Atomfa Trawsfynydd, yn sgil cyhoeddi adroddiad yr ymchwiliad cynllunio;

- *Materion cynllunio sy'n gysylltiedig â datblygu ynni adnewyddadwy;

- Canllawiau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cynllunio (galwodd papur diweddar gan Sefydliad Brenhinol Cynllunio Tref am ganllawiau ar hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cynlluniau datblygu a phenderfyniadau cynllunio).

Trafnidiaeth

- Gweithredu argymhellion *Adolygiad Polisi Trafnidiaeth Gyhoeddus* Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth;

- Datblygu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru, yn enwedig gosod masnachfraint reilffyrdd Cymru a'r Gororau;

- Cyflwyno, yn enwedig seilwaith strategol, *Fframwaith Trafnidiaeth Cymru;*

- Cynnydd tuag at leihau tagfeydd traffig, e.e. rôl codi tâl ar ffyrdd lle ceir tagfeydd;

- Adolygiad parhaus o bolisi trafnidiaeth awyr sy'n cael ei wneud gan Adran Drafnidiaeth y DU.

Treftadaeth

- Canlyniadau adolygiad pum mlynedd parhaus o Cadw ac adolygiad ehangach o reoli'r amgylchedd hanesyddol.

Themâu Trawsbynciol

- *Adolygu swyddogaethau, cyfrifoldebau a chyfeiriad Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Parciau Cenedlaethol Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth, Cadw a chyrff treftadaeth cysylltiedig yn y dyfodol.